**Cyflwynwyd yr ymateb hwn i'r [Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg] ar [Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru)]**

**This response was submitted to the [Children, Young People and Education Committee] on the [Welsh Language and Education (Wales) Bill]**

**WLE 13**
**Ymateb gan: CBAC**
**Response from: WJEC**

---

Mae CBAC yn croesawu'r cyfle i ymateb i Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru).

CBAC yw corff dyfarnu mwyaf Cymru ac rydym yn cynnig bron i 200 o gymwysterau TGAU, UG, Safon Uwch a Galwedigaethol yn ddwyieithog.

Rydym yn croesawu'r prif ddarpariaethau yn y Bil ac yn edrych ymlaen at gefnogi hyn yn ein cymwysterau, yn enwedig yr amcan o sicrhau bod pob disgybl yn cyrraedd diwedd oedran ysgol gorfodol fel defnyddwyr annibynnol o'r Gymraeg.

Mewn cydweithrediad â'r rheoleiddiwr, Cymwysterau Cymru, mae CBAC wedi cynllunio cymwysterau Cymraeg newydd ar gyfer dysgwyr 14 – 16 gan ganolbwyntio ar y cwricwlwm newydd i Gymru a datblygu sgiliau llafar. Bydd TGAU Cymraeg Craidd a Lefel 2 Cymraeg Craidd Ychwanegol yn gyfle i ddysgwyr ddatblygu a gwella eu sgiliau iaith Gymraeg, gyda 50% o'r ddau gymhwyster yn canolbwyntio ar lafaredd. Rydym yn llwyr ymwybodol bod cynyddu hyder dysgwyr yn eu defnydd o'r Gymraeg yn hanfodol ar gyfer strategaeth genedlaethol Cymraeg 2050 o gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn erbyn 2050. Bydd pobl ifanc yn cael cyfleoedd i ddefnyddio'u Cymraeg yn naturiol gan ddechrau eu taith i ddod yn siaradwyr hyderus wrth astudio'r ddau gymhwyster newydd.

Mae CBAC yn ymwybodol o'r her o recriwtio athrawon cymwys wrth gyflwyno gwersi yn y Gymraeg a thrwy gyfrwng y Gymraeg a dyna pam rydym yn cefnogi athrawon drwy lunio rhaglen gynhwysfawr o ddysgu proffesiynol i'w cynorthwyo i addysgu cymwysterau cyfredol a newydd. Rydym hefyd yn darparu ystod o adnoddau cyfrwng Cymraeg i gefnogi athrawon a dysgwyr, gan gynnwys Trefnwyr Gwybodaeth, adnoddau Dysgu Cyfunol a gwerslyfrau.

Mae CBAC yn ddarparwr cymwysterau Cymraeg i Oedolion, ac mae'r gyfres hon o ddarpariaeth yn cyd-fynd â'r egwyddorion sy'n cael eu hyrwyddo gan Gymdeithas i Brofwyr Ieithoedd yn Ewrop (ALTE), y mae CBAC yn aelod ohoni. Byddwn yn cynnal 62ain Cyfarfod a Chynhadledd ALTE ym mis Ebrill 2025. Mae gwaith eisoes wedi'i wneud i alinio'r cymwysterau Cymraeg i Oedolion â Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewropeaidd. Byddai CBAC yn croesawu'r cyfle i ddatblygu cymwysterau iaith eraill yn y dyfodol gan ddefnyddio'r Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewropeaidd ar gyfer Ieithoedd gan y byddai hyn hefyd yn alinio ein cymwysterau TGAU, Lefel 2 a TAG â chymwysterau Cymraeg i Oedolion i gael un continwwm dysgu Cymraeg. Fel busnes, credwn y byddai continwwm sgiliau Cymraeg yn ein cefnogi yn ystod y broses recriwtio. Mae CBAC yn annog eu gweithwyr i gael gwersi Cymraeg ac mae nifer ohonynt yn manteisio ar y cyfle i sefyll cymwysterau Cymraeg i Oedolion yn flynyddol. Rydym yn hyrwyddo'r cyfle i'n gweithwyr gael mwy o allu Cymraeg a defnyddio eu sgiliau siarad Cymraeg bob dydd.

Rydym yn croesawu'r weledigaeth i greu categorïau iaith statudol ar gyfer ysgolion. Mae CBAC wedi ymrwymo i hyrwyddo a chefnogi system addysg ddwyieithog, gan gynnwys gweithio gyda Chanolfan Bedwyr, Canolfan Gwasanaethau Cymraeg, Ymchwil a Thechnoleg Prifysgol Bangor, i ddefnyddio terminoleg safonol yn gyson ar draws asesiadau ac adnoddau cyfrwng Cymraeg. Rydym hefyd yn ceisio gwella dulliau o weithio gyda chyhoeddwyr adnoddau a sicrhau sgiliau dwyieithog digonol ym mhob tîm. Dangosir hyn hefyd drwy weithio gyda Chomisiynydd y Gymraeg mewn perthynas â Chynllun yr Iaith Gymraeg a darparu gwasanaethau dwyieithog.

Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg 09 Hydref 2024
Children, Young People and Education Committee 09 October 2024

Mae gweithwyr o CBAC yn ddiolchgar am y cyfle i barhau i fod yn rhan o'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen - cod sy'n disgrifio gallu yn y Gymraeg. Rydym yn edrych ymlaen at gyfleoedd yn y dyfodol i greu cymwysterau a rhoi cymorth addysgol i ddysgwyr a gweithwyr i gael dealltwriaeth gyffredin o'u taith unigol wrth ddysgu Cymraeg.

Ian Morgan
Prif Weithredwr
CBAC